**Cynhyrchwyd yr hysbysiad hwn ar ran:**

**AQA, City & Guilds, CCEA, OCR, Pearson a CBAC**

## Hysbysiad i Ganolfannau

## Cyfrifoldeb penaethiaid canolfannau i roi gwybod am achosion o gamymddwyn

Hoffai'r CGC atgoffa penaethiaid canolfannau bod ganddynt gyfrifoldeb – yn unol â *Chod Ymarfer TGAU, TAG, Prif Ddysgu a Phroject* y rheoleiddwyr – i roi gwybod i'r corff dyfarnu perthnasol am unrhyw achosion o amau camymddwyn ymhlith ymgeiswyr, athrawon, goruchwylwyr neu aelodau eraill o staff gweinyddol (*Cod Ymarfer*, **Adran 8, tudalen 49**).

Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi'i ddisgrifio'n fanwl yn nogfen y CGC, *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: Polisïau a Gweithdrefnau*, sy'n nodi:

**Rhaid i benaethiaid canolfannau roi gwybod i'r corff dyfarnu priodol cyn gynted â phosibl am unrhyw achosion o amau camymddwyn neu am ddigwyddiadau o gamymddwyn gwirioneddol. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd achos o gamymddwyn mewn asesiad dan reolaeth neu waith cwrs yn cael ei ddarganfod cyn i'r ymgeisydd lofnodi'r ffurflenni dilysu.**

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn pan fydd achosion o amau camymddwyn yn codi, ac yn rhestru enghreifftiau o gamymddwyn a'r gosb a ddyrennir os caiff rheoliadau arholiadau eu torri.

Mae'r ddogfen hefyd yn nodi y bydd methu â rhoi gwybod i'r corff dyfarnu priodol am achos o amau camymddwyn mewn arholiadau neu asesiadau, a hynny cyn gynted â phosibl ar ôl i achos o'r fath ddigwydd neu gael ei ddarganfod, yn achos o gamymddwyn ynddo'i hun. Gallai hyn olygu y bydd sancsiynau yn cael eu gosod yn erbyn pennaeth y ganolfan a/neu'r ganolfan ei hun.

Mae'r cyrff dyfarnu yn gwerthfawrogi cydweithrediad pob canolfan o ran rhoi gwybod am achosion o amau camymddwyn. Mae'r cydweithrediad hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y system arholiadau cyhoeddus yn deg i bawb.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen CGC uchod o wefan y CGC: http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice

*(2018/19)*